# PEEL: Effeithlonrwydd yr heddlu 2015

Archwiliad o Heddlu Gwent



Hydref 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-917-9

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

# Cynnwys

**Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu? .... 4**

Dyfarniad cyffredinol .... 4

Crynodeb .... 4

**Rhifau'r heddlu .... 7**

**Cyflwyniad .... 9**

**Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw? .... 10**

Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano? .... 10

Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw? .... 11

Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd? .... 12

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw? .... 14

Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau? .... 15

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau? .... 16

Crynodeb o ganfyddiadau .... 17

**Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu? .... 18**

Pa mor dda mae model gweithlu presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol? .... 18

Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol? .... 20

Crynodeb o ganfyddiadau .... 21

**Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir? .... 23**

A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15? .... 23

Pa mor dda mae'r heddlu wedi cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2015/16? .... 24

Pa mor dda mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill? .... 25

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant? .... 26

Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throseddu'r PCC? ........................................ 28

Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throseddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol? ........................................ 28

Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu? 28

Crynodeb o ganfyddiadau ........................................ 29

**Atodiad A – Dyfarniadau HMIC ........................................ 30**

**Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7 ......... 31**

# Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

## Dyfarniad cyffredinol[1]

**Da**

Canfu HMIC bod Heddlu Gwent yn rhannol barod i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Trwy reolaeth ariannol gadarn ac ymroddiad i welliant parhaus, mae wedi llwyddo i leihau gwariant dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf, wedi gwella ei ddealltwriaeth o alw, cyflwyno model gweithredu newydd ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer heriau ariannol yn y dyfodol. Yn archwiliad gwerth am arian y llynedd, a ystyriodd sut oedd heddluoedd wedi bodloni her y cyfnod adolygiad o wariant cyntaf, dyfarnwyd bod Heddlu Gwent angen gwella.

## Crynodeb

Mae HMIC yn barnu bod Heddlu Gwent yn dda. Mae'r heddlu yn datblygu dealltwriaeth dda o alw'r cyhoedd ar ei wasanaethau, ynghyd â dulliau o ddeall y galw mewn meysydd troseddau mwy arbenigol yn well, megis troseddau yn ymwneud â seiber.

Mae'r ddealltwriaeth well hon wedi galluogi'r heddlu i nodi meysydd ble gall reoli galw'n well, er mwyn canolbwyntio adnoddau ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer plismona. Mae'r ddealltwriaeth hon hefyd wedi ei defnyddio i gynllunio'r model gweithredu newydd.

Mae HMIC wedi ei blesio gydag ansawdd y gwaith a aeth i gynllunio'r strwythur newydd. Mae mwy o swyddogion wedi cael eu gosod mewn rolau rheng flaen, ac mae adnoddau wedi eu dyrannu yn seiliedig ar y galw mwyaf, gydag adnoddau atodol wedi eu cyfeirio at feysydd gyda'r galw mwyaf. Gallai'r heddlu wella sut mae'n asesu a yw'r model gweithredu[2] yn bodloni anghenion y cyhoedd gyda gwell gwybodaeth am pa mor dda mae'n ymateb i alwadau gan y cyhoedd.

Mae Heddlu Gwent wedi llwyddo i leihau ei wariant dros y pedair blynedd diwethaf. O ganlyniad i'r camau sylweddol ymlaen eleni o ran gweithredu cynlluniau ar gyfer arbedion, mae'r heddlu yn disgwyl y bydd ganddo arbedion dros ben o £5.6m, y mae'n bwriadu dal gafael arno mewn cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio yn y dyfodol.

[1] Rhagorol, Da, Angen gwelliant neu Annigonol – gweler Atodiad A.

[2] Model gweithredu – y modd mae heddlu wedi ei drefnu o ran ei strwythur a'r prosesau mae wedi eu mabwysiadu ac y mae'n gweithredu er mwyn cyflawni ei amcanion.

Mae yna gynlluniau sydd wedi eu datblygu'n dda i gyflawni'r rhan fwyaf o'r arbedion a ragwelir ar gyfer y dyfodol hyd at 2019/20. Mae'r model gweithredu'n hyblyg ac mae yna arbedion eraill posibl o barhau i gael gwared ar aneffeithlonrwydd a gwella prosesau.

Mae hyn yn welliant mawr ar safle'r llynedd, ac mae wedi gwneud HMIC yn llawer mwy hyderus o safle ariannol yr heddlu yn y tymor byr, canolig a hir.

| **Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?** | **Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?** | **Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?** |
|---|---|---|
| **Good** | **Good** | **Good** |
| Mae Heddlu Gwent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r galw mae'n wynebu gan y cyhoedd ar gyfer gwasanaethau heddlu craidd, ac mae hefyd yn cyflwyno dulliau i ddeall y galw mewn meysydd troseddau mwy arbenigol.<br><br>Mae'r ddealltwriaeth well hon wedi ei defnyddio i gynllunio model gweithredu newydd, sydd wedi rhoi mwy o swyddogion mewn ardaloedd plismona lleol ac wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau i gyd-fynd â galw.<br><br>Mae cydweithio sefydledig gyda heddluoedd eraill yng Nghymru yn galluogi'r heddlu i ffocysu ei adnoddau yn fwy effeithiol | Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr, oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o alw a'r toriadau cyllideb gofynnol a ragwelwyd, fe aildrefnodd yr heddlu'r modd mae'n darparu plismona yn Ebrill 2015.<br><br>Mae HMIC wedi ei blesio gydag ansawdd y gwaith a aeth i gynllunio'r strwythur newydd, sy'n gosod mwy o swyddogion mewn rolau rheng flaen. Mae adnoddau wedi eu dyrannu yn seiliedig ar y galw mwyaf, gydag adnoddau atodol wedi eu cyfeirio at feysydd gyda'r galw mwyaf.<br><br>Dylai'r heddlu sicrhau y gall asesu effaith y newidiadau a wnaeth yn llawn, gan gynnwys effaith ailddyrannu | Mae Heddlu Gwent wedi llwyddo i leihau ei wariant o'r swm gofynnol o £24m dros y pedair blynedd diwethaf. Mae wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys gwneud yr holl arbedion gofynnol eleni.<br><br>O ganlyniad i'r cam sylweddol ymlaen eleni o ran gweithredu cynlluniau ar gyfer arbedion, mae'r heddlu yn disgwyl y bydd ganddo arbedion dros ben o £5.6m, y mae'n bwriadu dal gafael arno mewn cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio yn y dyfodol.<br><br>Mae'r heddlu wedi ceisio cyllid arall, yn cynnwys o Gronfa Arloesi'r Heddlu a gan y Cynulliad. |

| | | |
|---|---|---|
| ac effeithlon.<br><br>Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'i gostau ar gyfer darparu gwasanaethau, ac mae wedi cyflawni ymarfer cynhwysfawr i gymharu ei gostau gyda rhai heddluoedd eraill, er mwyn nodi'r meysydd ble gellid gwneud arbedion o hyd.<br><br>Mae'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng costau a chanlyniadau yn dal yn gyfyngedig, sydd wedi ei lesteirio ymhellach gan ddiffyg gwybodaeth perfformiad mewn rhai meysydd pwysig (megis yr amser a gymerwyd i ymateb i ddigwyddiadau). Bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r heddlu i werthuso effaith y model gweithredu newydd yn gywir. | adnoddau i blismona lleol o swyddogaethau eraill yn y sefydliad. Yn ogystal, gan nad yw rhai data (megis amserau ymateb) ar gael yn rhwydd, bydd angen i'r heddlu ystyried sut mae'n asesu a yw'r model gweithredu newydd yn bodloni anghenion y cyhoedd yn llawn.<br><br>Mae'r model gweithlu[3] newydd wedi ystyried galw newydd neu sy'n codi (megis troseddau sy'n gysylltiedig â seiber) ac anghenion sefydliadol (megis asesu'r anghenion recriwtio yn y dyfodol mewn ymateb i hyrwyddiadau a gynlluniwyd, ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau).<br><br>Mae'r heddlu yn bwriadu asesu effaith y newidiadau a wnaeth i sicrhau ei fod yn bodloni galw'r cyhoedd am ei wasanaethau o'i adnoddau ac o fewn ei gyllideb. | Mae'r heddlu yn adlewyrchu blaenoriaethau'r comisiynydd heddlu a throsedd (PCC) yn ei gynlluniau, ac mae'n ateb i'r PCC.<br><br>Mae swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd (OPCC) yn gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu cynlluniau ariannol. Mae'r PCC wedi ei ddarparu â'r un adroddiadau ariannol â phrif swyddogion yr heddlu.<br><br>Rhagwela'r heddlu y bydd angen lleihau ei wariant o £26.7m ymhellach rhwng 2015/16 a 2019/20. Mae yna gynlluniau sydd wedi eu datblygu'n dda i gyflawni'r rhan fwyaf o'r arbedion a ragwelir ar gyfer y dyfodol hyd at 2019/20.<br><br>Mae hyn yn welliant mawr ar safle'r llynedd, ac mae wedi gwneud HMIC yn llawer mwy hyderus o safle ariannol yr heddlu yn y tymor byr, canolig a hir. |

[3]Model gweithlu – sut mae'r gweithlu wedi ei reoli; yn achos yr heddlu, mae'n cynnwys swyddogion yr heddlu, er eu bod yn ddeiliaid swydd cwnstabl ac felly nid yn gyflogeion i'w heddluoedd; mae hefyd yn cynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a staff yr heddlu.

## Rhifau'r heddlu

### Sefyllfa ariannol

| | £m | % o Wariant Refeniw Gros (GRE) |
|---|---|---|
| Newid a ragwelir mewn gwariant 2015/16 i 2018/19 | -£22.5m | 18% |

Mae'n bwysig nodi bod rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. O ganlyniad, efallai nad yw'r ffigwr arbedion uchod yn adlewyrchu'r arbediad llawn y bydd rhaid i'r heddlu wneud. Defnyddiwyd GRE 2014/15 yma fel llinell sylfaen.

### Darparu plismona

| | Gwent | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|
| Newid arfaethedig yn nifer swyddogion yr heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018 | -5% | -6% |
| Newid arfaethedig yng nghyfanswm gweithlu'r heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018 | -10% | -6% |
| Arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2010 | 93% | 89% |
| A rfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2015 | 91% | 92% |
| Cyfran arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2018 | 95% | 92% |

## Sefydliad

| | Gwent | England and Wales |
|---|---|---|
| Cost swyddogion yr heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15) | £120 | £115 |
| Cost gweithlu'r heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15) | £170 | £165 |

## Ystadegau allweddol

| | Gwent | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|
| Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o 31 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2015 | +3% | +2% |
| Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o'r 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 | -27% | -16% |
| Boddhad dioddefwyr yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 | 79.3% | 83.8% |
| Newid mewn boddhad dioddefwyr o'r 12 mis i 31 Mawrth 2011 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 | Dim newid | Dim newid |

**Boddhad dioddefwyr:** Cyfwng hyder Gwent +/- 1.5 y cant. Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

Ar gyfer ffynonellau data, gweler Atodiad A yn yr Adroddiad cenedlaethol effeithlonrwydd.

# Cyflwyniad

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai cyllid canolog i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o 20 y cant yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Nawr, mewn cyfnod o ostyngiadau parhaus yn y gyllideb, mae angen i heddluoedd barhau i sicrhau arbedion wrth ganolbwyntio ar leihau troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel.

Yn rhan o'i archwiliadau blynyddol i Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL), asesodd rhaglen effeithlonrwydd HMIC sut mae heddlu yn uchafu ar ganlyniadau o'i adnoddau sydd ar gael. Fe adolygom gynllunio ariannol a gweithlu heddluoedd wrth archwilio cwestiynau ehangach cost, gallu a chynhyrchiant. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar y cwestiwn cyffredinol, 'Pa mor effeithlon yw’r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?'

I ateb y cwestiwn hwn fe edrychom ar dri maes:

- Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?
- Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?
- Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Yn ystod ein harchwiliad, fe gasglom ddata a chynlluniau o heddluoedd, holi’r cyhoedd i weld a oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a dderbyniont a chyflawni archwiliadau yn yr heddlu. Cynhaliom gyfweliadau gyda phrif gwnstabliaid a phrif swyddogion sy'n gyfrifol am gyllid, newid sefydliadol, adnoddau dynol a pherfformiad ym mhob heddlu a chynnal grwpiau ffocws o swyddogion a staff o amrywiol raddau a rhengoedd, ac ymweld yn ddirybudd â gorsafoedd heddlu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau o'r archwiliad eang hwn o Heddlu Gwent.

# Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?

Archwiliodd HMIC sut mae'r heddlu yn deall y galw am ei wasanaethau, a sut mae'n dyrannu ei staff a'r adnoddau ariannol i fodloni'r galw hwnnw. Yna fe asesom a yw'r penderfyniadau hynny yn arwain at ganlyniadau da i'r cyhoedd – bod yr heddlu'n weledol a'u bod yn mynychu'n brydlon os y'i gelwir, eu bod yn brwydro troseddau ac yn cadw cymunedau'n ddiogel, a bod dioddefwyr yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniont.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano?

Mae Heddlu Gwent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r galw mae'n wynebu gan y cyhoedd ar gyfer gwasanaethau heddlu craidd, ac mae yn sefydlu dulliau i ddeall y galw mewn meysydd troseddau mwy arbenigol. Mae'r heddlu wedi cyflawni dau ymarfer ar wahân dros gyfnodau 24 awr, a elwir yn Ymgyrch Veritas, i nodi a dadansoddi cyfanswm galw, yn cynnwys 'galw cudd' (megis yr hyn sydd wedi ei greu gan asiantaethau sector cyhoeddus eraill, fel awdurdodau cyngor lleol; neu gan swyddogion yr heddlu a staff, er enghraifft, gwneud galwadau mewnol i'r ystafell reoli). Mae'r heddlu wedi cynllunio ymarfer pellach ar gyfer Mehefin 2015. Mae'r heddlu hefyd wedi cyflawni dadansoddiad trylwyr pellach o weithgareddau yn y meysydd galw uchel, yn cynnwys yr uned diogelu'r cyhoedd ac ystafell reoli'r heddlu, gan ddefnyddio meddalwedd modelu efelychiad i ddarparu dadansoddiad manwl.

Mae'r dadansoddiad hwn wedi dangos bod effaith galw oedd gynt yn gudd yn arwyddocaol. Er enghraifft, gwneir 30 y cant o'r galwadau i'r switsfwrdd gan swyddogion a staff yn gwneud ymholiadau mewnol. Mae hyn yn atal y rhai sy'n ateb galwadau rhag ymateb yn fwy effeithlon ac effeithiol i alwadau gan y cyhoedd. Er mwyn cael gwared ar y math yma o alw y gellir ei osgoi, mae'r opsiwn i ddeialu '0' ar gyfer cyswllt mewnol yn cael ei ddiddymu, ac mae staff mewnol yn cysylltu mewn ffordd arall.

Mae'r ddealltwriaeth o alw a sicrhawyd o Ymgyrch Veritas a'r gwaith rhaglen newid ehangach yn hysbysu cynlluniau i ddatblygu a mireinio'r model gweithredu newydd ar gyfer plismona. Mae'r heddlu nawr wedi rhannu Gwent i ddwy ardal blismona, Dwyrain a Gorllewin. Yn dilyn hyn, mae nawr mewn safle gwell i allu dyrannu adnoddau yn seiliedig ar y galw hysbys am wasanaethau yn y meysydd hynny. Mae dyrannu adnoddau i unedau arbenigol hefyd wedi ei fodelu yn yr un modd. Mae hyn wedi cynnwys uned diogelu cyhoedd (PPU) yr heddlu a'r gwasanaethau adnoddau a rennir (SRS), sy'n uned newydd i uno gwasanaethau technegol yr heddlu a dau awdurdod cyngor lleol.

Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth o alw ac wedi nodi meysydd ble gellir lleihau galw, wedi rhoi mwy o swyddogion mewn ardaloedd plismona lleol, ac wedi darparu ar gyfer mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau i gyd-fynd â galw.

Er ei bod yn rhy fuan i asesu'r effaith, fe welodd HMIC fod swyddogion eisoes yn teimlo bod y model gweithredu yn gweithio'n well i fodloni galwadau gan y cyhoedd, gyda phariad gwell o adnoddau i fodloni'r amrywiaethau mewn galw o ran lleoliad, amser o'r dydd, a diwrnod o'r wythnos.

Mae'r heddlu yn cydweithredu gyda heddluoedd Cymreig eraill i'w alluogi i ffocysu adnoddau'n fwy effeithiol ar feysydd blaenoriaeth.

Yn ogystal, mae yna dystiolaeth bod yr heddlu'n defnyddio'r dadansoddiad o alw i wella ei ddealltwriaeth o gostau ac i wella dealltwriaeth o ddarparu adnoddau i swyddogaethau'r heddlu, gan gynnwys cydweithredu gyda heddluoedd Cymreig eraill.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw?

Mae'r heddlu yn aildrefnu'r modd y delir â galwadau am wasanaeth ac y cofnodir troseddau yn yr ystafell reoli, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac i sicrhau y gellir darparu'r ymateb heddlu mwyaf priodol i ddigwyddiadau. Bydd staff yr ystafell reoli yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau, gan gynnwys trin galwadau, cofnodi a ble fo'n bosibl ddatrys troseddau ar y pwynt cyswllt cyntaf a danfon adnoddau'r heddlu i ddigwyddiadau Disgwylir y bydd yr ymagwedd newydd hon yn gwbl weithredol erbyn Ionawr 2017.

Mae cyflwyno rhingylliaid i'r ystafell reoli wedi ei groesawu gan staff gan eu bod yn darparu asesiad parhaus mwy amserol a thrylwyr o ddigwyddiadau a throseddau. Mae hyn yn galluogi gwell asesiad o risg a gwneud penderfyniadau am pa ddigwyddiadau a throseddau ddylid eu datrys dros y ffôn, a pha rai sydd angen presenoldeb swyddog. Mae'r camau hyn wedi gosod yr heddlu mewn safle llawer gwell nag oedd yn wir yn flaenorol, nid yn unig i osgoi gwastraffu amser yr heddlu, ond hefyd yn bwysig i gynnal ffocws gwirioneddol ar ddioddefwyr a gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd.

Mae yna ymagwedd 'gwneud nid dweud' yn yr ystafell reoli, ble mae anfonwyr yn penderfynu pwy yw'r unedau mwyaf priodol i ymateb i ddigwyddiadau penodol ac yn eu hanfon, yn hytrach na gofyn ar y radio pwy sydd ar gael. Mae'r system yn dibynnu ar dechnoleg mapio geo-leoliad wedi ei osod ar radios swyddogion, sy'n galluogi'r ystafell reoli i weld mewn eiliad ble mae holl adnoddau'r heddlu ar draws Gwent. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn actifadu eu lleoliad trwy eu radios yn rheolaidd, felly nid oes gan anfonwyr yn yr ystafell reoli ddarlun cywir o'r holl adnoddau sydd ar gael yn yr ardal.

Ceir proses cyfarfod rheoli dyddiol (DMM) strwythuredig sy'n goruchwylio digwyddiadau a throseddau ar gyfer y 24 awr diwethaf i asesu bygythiad, risg a niwed a bregusrwydd dioddefwyr. Mae'r broses hon yn caniatáu ar gyfer symudiad hyblyg adnoddau ar draws ardal yr heddlu, er mwyn ymateb yn well i alw dyddiol.


## Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd?

I asesu ymateb yr heddlu i alw'r cyhoedd, ystyriodd HMIC ffigurau a chyfraddau troseddau yng Ngwent; lefelau boddhad dioddefwyr; a p'un a yw'r heddlu yn defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Er nad yw troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn fesur cyflawn o bell ffordd o'r galw mae heddlu yn wynebu, mae'n darparu dangosydd cymharol o berfformiad ar draws yr holl heddluoedd. Adroddir cyfraddau troseddau fel nifer o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth ym mhob ardal heddlu i ganiatáu ar gyfer cymharu rhwng ardaloedd. Mae cyfanswm troseddau a gofnodwyd yn cynnwys troseddau seiliedig ar ddioddefwyr (e.e. lladrad) a throseddau heb fod yn seiliedig ar ddioddefwr (e.e. meddiant o gyffuriau). Dangosodd dau draean o heddluoedd gynnydd blynyddol yng nghyfanswm troseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Efallai bod y cynnydd mewn hwn mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi ei effeithio gan y ffocws o'r newydd ar ansawdd a chydymffurfiad cofnodion troseddau ers i HMIC gyflawni archwiliad cenedlaethol o gywirdeb data troseddau yn 2014.

Yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 roedd gan Went gyfradd troseddau seiliedig ar ddioddefwr o 56.1 a chyfradd troseddau nad ydynt yn seiliedig ar ddioddefwr o 6.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynrychioli lleihad (28 y cant) yn y gyfradd troseddau dioddefwyr a chynnydd (20 y cant) yn y gyfradd troseddau heb ddioddefwyr ers dechrau'r adolygiad o wariant yn 2010. Yn ystod yr un cyfnod roedd gan Gymru a Lloegr gyfradd troseddau seiliedig ar ddioddefwyr ac nad yw'n seiliedig ar ddioddefwyr o 55.2 a 6.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno. Mae hyn yn cynrychioli lleihad yn y ddwy gyfradd troseddau o 15 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno ers dechrau'r adolygiad o wariant. Gellir gweld graddfa'r newid mewn cyfraddau troseddau yn Ffigwr 1.

**Ffigwr 1: Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul 1,000 o'r boblogaeth o Went yn y 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015, o gymharu â Chymru a Lloegr**




**Ffynhonnell: Ystadegau troseddau'r Swyddfa Gartref ac amcangyfrifon poblogaeth canol 2013 yr ONS (defnyddir data poblogaeth 2013 ar draws blynyddoedd lluosog i ddatgelu gwir newid mewn troseddau a gofnodwyd, yn hytrach na newidiadau oherwydd newid poblogaeth).**

O'r rhai sydd wedi bod yn ddioddefwr troseddau yng Ngwent, roedd 79.3[4] yn fodlon gyda'u profiad cyfan gyda'r heddlu yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015. Mae hyn yn is na'r gyfradd boddhad dioddefwyr cenedlaethol o 83.8 y cant dros yr un cyfnod amser.[5] Ni chafwyd unrhyw newid arwyddocaol mewn boddhad dioddefwyr yng Ngwent o'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 a'r 12 mis i Fawrth 2015

Mae'r heddlu nodi wedi cynnydd o 3.1 y cant mewn troseddau cyffredinol a gofnodwyd ar gyfer y 12 mis diwethaf, sy'n gyson gyda'r tuedd ar gyfer heddluoedd eraill ar draws Cymru a Lloegr.

Am nifer o flynyddoedd mae cyfraddau boddhad dioddefwyr Heddlu Gwent wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr, ond mae'r heddlu'n ymroddedig i wella'r sefyllfa hon. Mae'r heddlu wedi cyflwyno ymagwedd newydd yn ddiweddar a elwir yn 'CARES', sydd wedi ei chynllunio i sicrhau bod swyddogion a staff yn gwneud pob ymgais i sicrhau bod dioddefwyr trosedd yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl gan yr heddlu. Eleni mae cyfraddau boddhad yn dangos arwyddion bychan o welliant, ond maent yn dal i fod yr isaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhaglen CARES yn

[4] Cyfwng hyder Gwent +/- 1.5 y cant.

[5] Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

cynnwys gofyniad i'r holl oruchwylwyr ac uwch reolwyr alw pob dioddefwr yn ôl i asesu'r gwasanaeth a dderbyniodd ac i ymateb i unrhyw faterion neu bryderon ar y pryd. Er bod hyn yn ddyhead gwerth chweil, mae wedi ychwanegu'n sylweddol i lwyth gwaith goruchwylwyr.  Mae'r dyraniad presennol o ringylliaid yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, ac nid ar lwyth gwaith. Mae hyn yn golygu yn rhai o ardaloedd prysurach yr heddlu, bod y ddyletswydd hon yn cael effaith ar allu rhai o'r rhingylliaid i reoli staff yn effeithiol.

Bu HMIC yn monitro sut mae heddlu yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn rhan o'r archwiliad. Mae Ffigwr 2 isod yn dangos bod Heddlu Gwent yn defnyddio ystod o ddulliau (yn cynnwys Facebook, Twitter ac e-bost) i ymgysylltu â'r cyhoedd.

**Ffigwr 2: Dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd a ddefnyddir gan Heddlu Gwent yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015**

| A yw'r Heddlu yn defnyddio'r ffrydiau cyfathrebu canlynol? | |
|---|---|
| Facebook | Ydi |
| Twitter | Ydi |
| E-bost | Ydi |
| Neges testun | Ydi |
| Fforwm y we | Nac Ydi |
| Instagram | Nac Ydi |
| Ffôn lleol (nid 999 na 101) | Ydi |

**Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC.**

## Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw?

O ganlyniad i wella dealltwriaeth yr heddlu o faint, natur a ffynonellau galw am ei wasanaethau, mae wedi gallu targedu ei ymdrechion i ddileu neu leihau rhai elfennau o alw diangen (megis galwadau am wasanaeth sy'n aros neu a ohiriwyd, ble na ddelir â galwadau o fewn y cyfnodau amser a nodwyd, gan roi mwy o faich ar adnoddau). Mae'r ddealltwriaeth well hon yn golygu y gall yr heddlu ail-fuddsoddi'r gallu hwn mewn ateb ac ymateb i alwadau am wasanaeth yn gyflymach, ac mae'r heddlu'n amcangyfrif bod hyn eisoes wedi arwain at leihad yn y nifer o ddigwyddiadau nad ydynt yn cael ymateb ar y diwrnod y'u derbyniwyd.

Er mwyn gwneud defnydd gwell o amser yr heddlu ac mewn cydnabyddiaeth nad yw pob digwyddiad angen presenoldeb yr heddlu ar unwaith, cynigir apwyntiadau ar amser cyfleus i alwyr nawr ble fo'n briodol, a ble nad oes risg uniongyrchol sy'n galw am ymateb cynt. Neilltuir car patrôl a swyddogion i ddelio ag apwyntiadau a drefnwyd gyda'r cyhoedd. Ychwanegiad diweddar yw hyn ac mae HMIC wedi gweld nad yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn allu, gan nad yw pob slot yn y dyddiadur wedi ei

lenwi, ond mae ei ddefnydd yn cynyddu. Mae hyn yn golygu y gall mwy o adnoddau fod ar gael i ddelio â digwyddiadau sydd angen ymateb ar unwaith.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau?

Mae Heddlu Gwent wedi cydnabod ei fod wedi gwario mwy'n hanesyddol na heddluoedd tebyg ar blismona. Ar yr un pryd, mae wedi gweld canlyniadau gwaeth na'r cyfartaledd o ran lefelau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a hefyd o hyder y cyhoedd a boddhad gyda gwasanaethau'r heddlu. Mae'r heddlu wedi gwneud dadansoddiad manwl o gostau, gan gymharu ei hun â heddluoedd eraill, yn defnyddio proffiliau gwerth am arian yr HMIC. Hysbysodd canlyniadau'r dadansoddiad hwn y fersiwn ddiweddaraf o raglen newid yr heddlu, a elwir yn Aros ar y Blaen 8, yn canolbwyntio ar ddatblygu'r model gweithredu newydd.

Mae'r rhaglen Aros ar y Blaen 8 wedi arwain at ddatblygiad achosion busnes manwl ar gyfer prosiectau newid, sy'n gynhwysfawr ac yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad o alw, er bod lle i hyn fod yn fwy helaeth. Er enghraifft, gallai'r heddlu gynnwys dadansoddiad manwl o staffio, rolau a chyfrifoldebau cyn ac wedi'r adolygiad, a chynnwys awgrym o'r canlyniadau disgwyliedig o'r rhaglen newid.

Cryfhaodd yr heddlu ei ymagwedd i fonitro pa mor dda mae'n gwneud. Mae detholiad o wybodaeth perfformiad ar gael yn hwylus ac yn hygyrch ar bob cyfrifiadur desg. Mae argaeledd data amser byw a'r newid diwylliannol o dargedau perfformiad i ymagwedd ble mae'r dioddefwr yn ganolog yn caniatáu i uwch reolwyr asesu perfformiad mewn manylder, ac i ddal y gweithlu'n atebol yn fwy effeithiol, yn arbennig ble mae'n angenrheidiol i helpu gwella ansawdd gwasanaeth i'r cyhoedd.

Fodd bynnag, gwelodd HMIC bod yna fylchau o hyd yn nealltwriaeth yr heddlu o berfformiad. Mae yna swm sylweddol o ddata perfformiad ar gael o systemau ystafelloedd rheoli, ond ar hyn o bryd nid oes fframwaith perfformiad ar gyfer rheoli cyswllt. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ar rywfaint o'r TG a meddalwedd a ddefnyddir gan yr heddlu, nid yw gwybodaeth bwysig megis amserau danfon adnoddau ar gael yn rhwydd.

Mae hyn yn golygu nad yw'r heddlu'n gallu bod yn hyderus bod gwasanaethau eraill naill ai'n ymateb yn effeithiol i angen neu'n cyflawni gwerth am arian. Fodd bynnag, mae HMIC yn cydnabod bod yr heddlu'n ymwybodol o'r gwendid hwn ac yn ceisio ei ddatrys trwy'r gwaith i drawsnewid gweithrediad yr ystafell reoli, a fydd, ynghyd â staff aml alluog, hefyd yn cynnwys system deleffon newydd yn hwyrach eleni a chyfnewid system reolaeth a TG rheoli'r heddlu yng ngwanwyn 2016.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau?

Mae Aros ar y Blaen 8 yn rhaglen newid gynhwysfawr ac wedi ei darparu'n dda gyda llywodraethu priodol ar waith. Mae eisoes wedi gweithredu model gweithredu newydd mawr ar gyfer plismona yn Ebrill 2015. Mae'r swyddogaethau sy'n weddill gan yr heddlu yn destun rhaglen a drefnwyd o adolygiadau. Mae'r heddlu wedi cyflawni ymarferion yn eu cymharu ag eraill yn rhannol o'r adolygiad i nodi rhai paramedrau ar gyfer arbedion posibl.

Mae yna dystiolaeth glir o fuddsoddiad mewn technoleg newydd i gefnogi dulliau mwy effeithiol o weithio. Yn amodol i gais llwyddiannus i Gronfa Arloesi'r Heddlu, mae'r heddlu yn buddsoddi mewn camerâu corff ar gyfer swyddogion rheng flaen a dyfeisiau symudol wedi eu cysylltu i systemau'r heddlu i alluogi mynediad o bell ac fel bod swyddogion yn gallu cyflawni ystod lawn o ddyletswyddau heb fod angen dychwelyd i'r orsaf heddlu. Mae'r heddlu hefyd yn gwneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n well gyda chymunedau lleol.

Mae'r heddlu'n annog staff i ddod ymlaen gyda syniadau ac awgrymiadau newydd i wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd. Mae yna broses "Ffau'r Ddraig" sefydledig a hysbysebir yn eang; gwelodd HMIC bod staff yn bositif ynghylch y broses ac yn gallu darparu manylion sut y cyflwynwyd eu syniadau trwy Ffau'r Ddraig, a sut mae eu syniadau wedi eu gweithredu.

Mae gan yr heddlu rywfaint o drefniadau cydweithredu tymor hir ar waith gyda holl heddluoedd Cymru, a lywodraethir trwy'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol i nodi, amharu ar a daduno troseddau cyfundrefnol; uned drylliau ar y cyd gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed-Powys; ac uned eithafiaeth a gwrth derfysgaeth Gymreig (WECTU).

Cafodd HMIC hefyd wybod gan staff am weithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill, gydag adnoddau partneriaeth a phlismona cymdogaeth ymroddedig wedi eu cynnwys yn y model gweithredu, gan gynnwys gwasanaethau rhannu adnoddau gyda dau awdurdod cyngor lleol.

## Crynodeb o ganfyddiadau

**Da**

Mae Heddlu Gwent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r galw mae'n wynebu gan y cyhoedd ar gyfer gwasanaethau heddlu craidd, ac mae hefyd yn cyflwyno dulliau i ddeall y galw mewn meysydd troseddau mwy arbenigol.

Mae'r ddealltwriaeth well hon wedi ei defnyddio i gynllunio model gweithredu newydd, sydd wedi rhoi mwy o swyddogion mewn ardaloedd plismona lleol ac wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau i gyd-fynd â galw.

Mae cydweithio sefydledig gyda heddluoedd eraill yng Nghymru yn galluogi'r heddlu i ffocysu ei adnoddau yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'i gostau ar gyfer darparu gwasanaethau, ac mae wedi cyflawni ymarfer cynhwysfawr i gymharu ei gostau gyda rhai heddluoedd eraill, er mwyn nodi'r meysydd ble gellid gwneud arbedion o hyd.

Mae'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng costau a chanlyniadau yn dal yn gyfyngedig, sydd wedi ei lesteirio ymhellach gan ddiffyg gwybodaeth perfformiad mewn rhai meysydd pwysig (megis yr amser a gymerwyd i ymateb i ddigwyddiadau). Bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r heddlu i werthuso effaith y model gweithredu newydd yn gywir.

# Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?

Archwiliodd HMIC sut mae Heddlu Gwent wedi strwythuro ei weithlu (h.y. ei gyfuniad o swyddogion yr heddlu, staff a PCSOs, a'r gyfran o'r holl grwpiau hyn yn gweithio mewn swyddi rheng flaen), ac wedi asesu a oedd hyn yn fforddiadwy a chynaliadwy wrth i'r heddlu ymateb i'w her ariannol. Fe ystyriom hefyd beth mae'r heddlu yn ei wneud i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau a gallu priodol i frwydro troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel nawr ac yn y dyfodol.

## Pa mor dda mae model gweithlu presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?


Rhagwelodd Heddlu Gwent gyfanswm gofyniad arbedion dros bedair blynedd gyntaf yr arolwg o wariant yn rhan o'r rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu (2011/2012 i 2014/15) o £23.96m, sy'n cyfateb i 17 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 yr heddlu. Sicrhawyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau. Ers 2010, mae Heddlu Gwent wedi gweld lleihad o 208 o swyddogion yr heddlu, 161 o staff a chynnydd o 42 PCSOs, cyfatebol i lawn amser (FTE). Roedd y cynnydd yn niferoedd PCSOs o ganlyniad i gyllid Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr, oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o alw a'r toriadau cyllideb gofynnol a ragwelwyd, fe aildrefnodd yr heddlu'r modd mae'n cyflawni plismona yn Ebrill 2015. Mae'r model gweithredu newydd wedi ei gynllunio i baru galw a'r cyllid sydd ar gael.

Mae HMIC wedi ei blesio gydag ansawdd y gwaith a aeth i gynllunio'r strwythur newydd. Mae mwy o swyddogion yr heddlu wedi eu rhoi mewn rolau rheng flaen. Mae adnoddau wedi eu dyrannu yn seiliedig ar y galw mwyaf, ac adnoddau atodol wedi eu cyfeirio at feysydd gyda'r galw mwyaf.

Yng Ngwent, cafwyd gostyngiadau yng nghyfanswm y nifer o swyddogion yr heddlu (FTE) dros y cyfnod 2010 i 2015, fel y gwelir yn ffigwr 3. Yn ystod y cyfnod amser hwn, mae'r gyfran o rolau rheng flaen wedi gostwng o 93 y cant yn 2010 i 91 y cant yn 2015. Mae'r heddlu yn disgwyl cynyddu'r gyfran hon wrth edrych ymlaen at 2018.

**Ffigwr 3: Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth busnes yn Heddlu Gwent, o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.**




**Ffynhonnell: Data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref a chasglu data effeithlonrwydd HMIC**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 3, gweler Atodiad B**

Mae'r heddlu yn disgwyl y bydd y model gweithredu newydd yn gallu addasu i leihau niferoedd gweithlu wrth i'r gyllideb barhau i ostwng yn y tymor canolig.

Mae Gwent wedi ei rhannu i ddwy ardal ddaearyddol, Dwyrain a Gorllewin. Mae adnoddau wedi eu rhannu rhwng y ddwy ardal, yn seiliedig ar y dadansoddiad o alw ym mhob ardal. Yn flaenorol, roedd cyfanswm o 580 o gwnstabliaid yn darparu plismona seiliedig ar ardal, gyda 380 o gwnstabliaid eraill yn gweithio mewn swyddogaethau arbenigol canolog. Mae'r model newydd yn rhoi nifer sylweddol fwy o adnoddau i blismona lleol (gydag 800 o swyddi rheng flaen), tra bod y nifer mewn swyddogaethau canolog wedi eu lleihau i 150. Mae'r model hefyd yn cyflwyno cyfraddau goruchwyliol ar gyfer rhingylliaid, yn ogystal â strwythur ar gyfer plismona cymdogaeth. Mae patrymau shifftiau wedi eu haddasu i fodloni galw ac mae dyddiau hyfforddiant wedi eu cynnwys.

Fodd bynnag, er mwyn ailddyrannu mwy o adnoddau i blismona lleol, mae rhai o'r timau canolog arbenigol wedi eu diddymu (fel y rhai yn delio gyda diogelu pobl agored i niwed). Nid yw'n glir bod yr heddlu wedi asesu risgiau'r ymagwedd hon yn llawn, a'r effaith ar y gwasanaeth a ddarperir.

Hefyd, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, cyfyngedig iawn yw'r monitro o ba mor dda mae'r heddlu nawr yn gall ymateb i alwadau am wasanaeth, gan nad yw amserau ymateb ar gael yn barod. Felly bydd yr heddlu angen sicrhau y gall asesu'n llawn a yw'r model gweithredu yn bodloni anghenion y cyhoedd yn y maes hwn.

## Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

**Ffigwr 4: Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu cyfatebol i amser llawn (FTE) o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer Heddlu Gwent o gymharu â Chymru a Lloegr**

| | Mawrth 2010 | Gwahaniaeth rhwng 2010 a 2015 | | Mawrth 2015 | Gwahaniaeth rhwng 2015 a 2018 | | Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gorllewin Swydd Efrog | Cymru a Lloegr | | Gorllewin Swydd Efrog | Cymru a Lloegr | |
| Swyddogion yr Heddlu | 1,437 | -14% | -12% | 1,229 | -5% | -6% | 1,164 |
| Staff yr Heddlu | 810 | -20% | -19% | 649 | -16% | -6% | 544 |
| Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu | 143 | 30% | -27% | 185 | -24% | -11% | 140 |
| **Cyfanswm gweithlu** | **2,390** | **-14%** | **-15%** | **2,064** | **-10%** | **-6%** | 1,848 |

**Ffynhonnell: Casglu data effeithlonrwydd HMIC ac ystadegau gweithlu'r Swyddfa Gartref**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 4, gweler Atodiad B**

Disgwylir y bydd y model gweithlu newydd a gyflwynwyd yn Ebrill eleni yn gallu addasu i leihau niferoedd gweithlu wrth i'r gyllideb barhau i leihau yn y tymor canolig. Mae'r heddlu wedi mapio'r newidiadau a ragwelir yn y gweithlu yn glir, ac mae yna ragolygon manwl o niferoedd staff a swyddogion sy'n gadael, dyrchafiadau tebygol a lefel y recriwtio fforddiadwy.

Mae'r heddlu yn bwriadu recriwtio swyddogion newydd pob blwyddyn i ddiwallu'r nifer sy'n gadael. Bwriada'r heddlu leihau'r nifer o PCSOs i gyd-fynd â'r gyllideb sydd ar gael. Disgwylir y bydd recriwtio i rolau swyddogion yr heddlu yn bennaf o'r gronfa bresennol o PCSOs, gyda'r swyddi gwag hynny heb eu llenwi. Mae'r ymagwedd hon yn helpu'r heddlu i gyfyngu'r nifer o ddiswyddiadau sydd angen i fodloni'r arbedion gofynnol a ragwelwyd o swyddi PCSO.

Mae'r heddlu wedi ceisio diogelu plismona rheng flaen trwy leihau'r nifer o uwch swyddogion sy'n gwneud yr arbedion gofynnol. Egwyddor allweddol o'r rhaglen Aros

ar y Blaen 8 yw diogelu'r rheng flaen, ac yn wir i'w gynyddu ble fo'n bosibl. Mae lleihad mewn rhengoedd goruchwyliol yn caniatáu i'r heddlu gynyddu gallu rheng flaen i ymateb yn well i alw. Fodd bynnag, gwelodd HMIC dystiolaeth mewn un ardal rhingylliaid yn datgan eu bod wedi eu llethu gan agweddau o'u gwaith, yn arbennig felly'r gwiriadau goruchwyliol atodol sy'n ofynnol yn y system TG newydd, a'r galwadau yn ôl CARES.

Mae'r heddlu ar hyn o bryd yn cyflawni gwaith i ddeall bygythiadau sy'n codi, yn benodol cydnabod yr heriau a gyflwynir gan droseddau seiber a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a sut i ddarparu adnoddau i'r rhain yn effeithiol. Mae'r heddlu wedi creu uned troseddau seiber yn ddiweddar, sy'n adnodd canolog ble bydd 'arbenigwyr' yn y maes yn cynorthwyo. Bydd yr heddlu'n darparu hyfforddiant ymchwilio troseddau seiber i 150 o swyddogion ar draws pob disgyblaeth, gyda'r nod o gael gallu ymchwiliad seiber, gydag arbenigwr ym mhob maes ar bob shifft. Felly hefyd, mae yna hyrwyddwr diogelu ar bob shifft ym mhob ardal o'r heddlu, yn seiliedig ar yr un model.

## Crynodeb o ganfyddiadau



**Da**

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr, oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o alw a'r toriadau cyllideb gofynnol a ragwelwyd, fe aildrefnodd yr heddlu'r modd mae'n darparu plismona yn Ebrill 2015.

Mae HMIC wedi ei blesio gydag ansawdd y gwaith a aeth i gynllunio'r strwythur newydd, sy'n gosod mwy o swyddogion mewn rolau rheng flaen. Mae adnoddau wedi eu dyrannu yn seiliedig ar y galw mwyaf, gydag adnoddau atodol wedi eu cyfeirio at feysydd gyda'r galw mwyaf.

Dylai'r heddlu sicrhau y gall asesu effaith y newidiadau a wnaeth yn llawn, gan gynnwys effaith ailddyrannu adnoddau i blismona lleol o swyddogaethau eraill yn y sefydliad. Yn ogystal, gan nad yw rhai data (megis amserau ymateb) ar gael yn rhwydd, bydd angen i'r heddlu ystyried sut mae'n asesu a yw'r model gweithredu newydd yn bodloni anghenion y cyhoedd yn llawn.

Mae'r model gweithlu[6] newydd wedi ystyried galw newydd neu sy'n codi (megis troseddau sy'n gysylltiedig â seiber) ac anghenion sefydliadol (megis asesu'r anghenion recriwtio yn y dyfodol mewn ymateb i hyrwyddiadau a gynlluniwyd, ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau).

[6] Model gweithlu – sut mae'r gweithlu wedi ei reoli; yn achos yr heddlu, mae'n cynnwys swyddogion yr heddlu, er eu bod yn ddeiliaid swydd cwnstabl ac felly nid yn gyflogeion i'w heddluoedd; mae hefyd yn cynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a staff yr heddlu.

Mae'r heddlu yn bwriadu asesu effaith y newidiadau a wnaeth i sicrhau ei fod yn bodloni galw'r cyhoedd am ei wasanaethau o'i adnoddau ac o fewn ei gyllideb.


# Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Archwiliodd HMIC sut mae heddluoedd wedi sicrhau arbedion dros y cyfnod adolygiad o wariant, y cynlluniau arbedion mae heddluoedd wedi datblygu ar gyfer y dyfodol a thybiaethau'r heddlu o ran deall yr heriau ariannol i ddod. Rydym hefyd wedi asesu a oes gan heddluoedd reoliadau a llywodraethu ariannol da, ac os yw gwario yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun plismona a throseddau.

## A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15?

Rhagwelodd Heddlu Gwent arbedion o £23.96m dros bedair blynedd gyntaf yr adolygiad gwariant (2011/12 i 2014/15), sy'n cyfateb i 17 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 yr heddlu. Dros y cyfnod, cafwyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau, er mwyn mantoli'r cyllidebau erbyn 2014/15. Dros yr un cyfnod, rhagwelodd yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr gyfanswm arbedion o £2.53bn, sy'n cyfateb i 18.2 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 ar gyfer Cymru a Lloegr

**Ffigwr 5: Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, ac arbedion arfaethedig a ragwelir ar gyfer 2015/16 i 2019/20, yn erbyn llinell sylfaen gwariant refeniw gros 2010 ar gyfer Heddlu Gwent a Chymru a Lloegr**




**Ffynhonnell: Data plismona mewn cyni HMIC, casglu data effeithlonrwydd HMIC a data Dadansoddiad Amcan yr Heddlu y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 5, gweler Atodiad B**

Rhagwela'r heddlu y bydd angen lleihau ei wariant o £31m ymhellach rhwng 2014/16 a 2019/20. Mae yna gynlluniau sydd wedi eu datblygu'n dda i gyflawni'r rhan fwyaf o'r arbedion a ragwelir ar gyfer y dyfodol hyd at 2019/20.

Mae'r model gweithredu yn raddiadwy ac mae'r heddlu'n credu bod arbedion pellach posibl o barhau i gael gwared ar aneffeithlonrwydd yn y meysydd a nodwyd fel rhai cost uchel, trwy gymharu costau heddluoedd eraill.

Mae hyn yn welliant mawr ar safle'r llynedd, ac mae wedi gwneud HMIC yn llawer mwy hyderus o safle ariannol yr heddlu yn y tymor byr, canolig a hir.

## Pa mor dda mae'r heddlu wedi cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2015/16?

Mae gan Heddlu Gwent gyllideb gytbwys arfaethedig o £122.2m ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys toriad mewn gwariant o £7.6m. Rhagwelir y bydd y lleihad yn cael ei rannu rhwng £7.1m o'r gyllideb cyflogau (93 y cant) a £0.5m (7 y cant) o'r gyllideb nad yw'n gyflogau yn arbedion eleni. Mae'r heddlu yn bwriadu bodloni ei leihad mewn gwariant heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i bontio. Ers llinell sylfaen 2010, ar ddechrau'r adolygiad o wariant, mae hyn yn cynrychioli arbediad o 23 y cant.


## Pa mor dda mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill?

Mae ffigwr 6 (ar y dudalen nesaf) yn arddangos faint o gyllid mae'r heddlu wedi ei dderbyn o grant llywodraeth ganolog, fel praesept gan gynghorau lleol trwy'r dreth gyngor, a gan ffynonellau eraill, megis grantiau arbennig y Swyddfa Gartref.

Mae Heddlu Gwent yn disgwyl i'r gyfradd o'i gyllid a ddaw o gyllid llywodraeth y setliad craidd i leihau dros y blynyddoedd i ddod, tra'n rhagweld y bydd y gyfran o'i gyllid a ddaw o'r praesept (cyllid y dreth gyngor) yn cynyddu dros yr un cyfnod amser.

Dylid nodi y daw cyllid setliad craidd y llywodraeth, o ran gwerth ariannol a chyfrannau o gyfanswm cyllid, a ddisgrifir yn ffigwr 6 o amcangyfrifon yr heddlu a gesglir yn rhan o gasgliad data archwiliad effeithlonrwydd HMIC. Ni ddylid ystyried y data hwn fel rhagolwg swyddogol. Mae'r Swyddfa Gartref yn y broses o ymgynghori ar newidiadau i fformwla cyllido'r heddluoedd ac felly gallai unrhyw ragolygon presennol newid yn ystod y cyfnod amser a amlygir.

**Ffigwr 6: Cyfuniad a ragwelir o gyllid ar gyfer Heddlu Gwent yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2020, o gymharu â heddluoedd Cymru**




**Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC**

Mae Heddlu Gwent yn gwneud ymdrech i sicrhau cyfleoedd cyllid eraill ac mae wedi llwyddo yn y gorffennol i ddod â chyllid allanol i gefnogi syniadau newydd. Er enghraifft, caniataodd grant arloesi'r Swyddfa Gartref yn 2014 i'r heddlu fuddsoddi mewn dyfeisiau data symudol a meddalwedd ar gyfer swyddogion. Talwyd am y camerâu corff trwy grantiau allanol hefyd. Mae'r heddlu hefyd yn elwa o grant llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflogi PCSOs; mae Gwent wedi cyflogi 100 PCSO ychwanegol ar draws yr ardal yn defnyddio'r cyllid hwn.


## Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant?

Mae lefel cronfeydd wrth gefn yr heddlu a sut y rhagwelir y byddant yn newid dros amser wedi ei nodi yn ffigwr 7. Adroddodd Heddlu Gwent bod cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn yn £43.3m yn 2014/15. Mae'r rhain wedi eu didoli i sawl categori:

- cronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo – swm i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu i leddfu llif arian anwastad;
- cronfeydd a neilltuwyd (clustnodwyd) – mae'r rhain yn gronfeydd a neilltuwyd ar gyfer dibenion cyfalaf penodol;

- cronfeydd derbynebion cyfalaf – mae'r rhain yn elw o werthu asedau y gellir eu defnyddio ar gyfer dibenion cyfalaf penodol yn unig; a
- cyfalaf cyffredinol i gefnogi gwariant cyfalaf arfaethedig yn y dyfodol.

**Ffigwr 7: Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant refeniw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19**




**Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 7, gweler Atodiad B**

Symudodd yr heddlu o system reoli ariannol ddatganoledig i reolaeth cyllidebol ganolog rai blynyddoedd yn ôl, ac fe reolir penderfyniadau gwario trwy fwrdd adnoddau'r heddlu a grŵp tasg y busnes. Er bod hyn wedi helpu cyflawni'r arbedion gofynnol, mae yna gydnabyddiaeth ei fod hefyd wedi lleihau atebolrwydd y rheolwyr unigol ar gyfer adnoddau maent yn eu defnyddio.

Mae'r heddlu yn ystyried rhoi rhywfaint o ddatganoli wedi rheoli a chyfyngedig o gyllidebau i reolwyr, gyda chydnabyddiaeth o'r angen i'w darparu â rhywfaint o hyfforddiant rheolaeth ariannol.

Rhoddir adroddiad ariannol misol i brif swyddogion a'r PCC. Rhoddir adroddiadau gwariant a goramser i arweinyddion adrannol ar gyfer gwybodaeth, er nad oes ganddynt gyfrifoldeb dros reoli'r gwariant hwn.

Cafwyd ymarfer cynhwysfawr i gymharu costau'r holl swyddogaethau yn yr heddlu gyda'u heddluoedd tebycaf, ac i nodi unrhyw botensial ar gyfer arbedion yn ôl swyddogaeth. Mae hyn wedi defnyddio proffiliau gwerth am arian HMIC, ac mae'r canlyniadau yn hysbysu'r rhaglen Aros ar y Blaen 8 o adolygiad a newid.

Mae rheolaeth cyllid ac adnoddau dynol yn rhan bendant o'r rhaglen Aros ar y Blaen 8 ac mae hyn yn sicrhau bod newidiadau staffio a chyllideb wedi eu cydlynu'n gywir.

## Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throseddu'r PCC?

Mae'r heddlu staff o swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd (OPCC) yn cydweithio'n agos ac yn rhannu amcanion. Mae'r dirprwy PCC yn eistedd ar Fwrdd y Rhaglen Aros ar y Blaen 8 ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ac adroddiadau cyllideb.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throseddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol?

Rhennir pob tybiaeth cynllunio ariannol gyda'r PCC, sy'n derbyn yr un adroddiadau ariannol misol â phrif swyddogion yr heddlu. Mae yna ddealltwriaeth glir bod y PCC yn 'berchen' ar y cronfeydd ac yn ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am ragolygon ariannol.

## Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu?

Rhagwela'r heddlu y bydd angen lleihau ei wariant o £31m ymhellach rhwng 2014/16 a 2019/20. Mae yna gynlluniau sydd wedi eu datblygu'n dda i gyflawni'r arbedion hyn.

Mae'r heddlu wedi cyflawni ei dargedau arbedion yn y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn ariannol gyfredol hon, gyda gwarged o £6m (y mae'r heddlu wedi ychwanegu i gronfeydd cyffredinol). Mae cynlluniau i gyflawni arbedion yn dangos bod ychydig dros £11m yn destun achosion busnes a weithredwyd neu a gymeradwywyd; mae £6m pellach o achosion busnes ar waith; ac fe amcangyfrifir bod £7m arall o opsiynau dan ystyriaeth. Rydym yn dal i gael bwlch o £0.07m yn 2019-20, y mae'r heddlu'n hyderus y bydd yn ei gyflawni. Mae'r model gweithredu yn raddiadwy ac fe deimlir bod yna arbedion posibl pellach o barhau i ddileu aneffeithlonrwydd mewn meysydd gweithgaredd a nodwyd fel rhai cost uchel, trwy gymharu costau gyda heddluoedd eraill.

## Crynodeb o ganfyddiadau

**Da**

Mae Heddlu Gwent wedi llwyddo i leihau ei wariant o'r swm gofynnol o £24m dros y pedair blynedd diwethaf. Mae wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys gwneud yr holl arbedion gofynnol eleni.

O ganlyniad i'r cam sylweddol ymlaen eleni o ran gweithredu cynlluniau ar gyfer arbedion, mae'r heddlu yn disgwyl y bydd ganddo arbedion dros ben o £5.6m, y mae'n bwriadu dal gafael arno mewn cronfeydd wrth gefn i'w defnyddio yn y dyfodol.

Mae'r heddlu wedi ceisio cyllid arall, yn cynnwys o Gronfa Arloesi'r Heddlu a gan y Cynulliad.

Mae'r heddlu yn adlewyrchu blaenoriaethau'r comisiynydd heddlu a throsedd (PCC) yn ei gynlluniau, ac mae'n ateb i'r PCC.

Mae swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd (OPCC) yn gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu cynlluniau ariannol. Mae'r PCC wedi ei ddarparu â'r un adroddiadau ariannol â phrif swyddogion yr heddlu.

Rhagwela'r heddlu y bydd angen lleihau ei wariant o £26.7m ymhellach rhwng 2015/16 a 2019/20. Mae yna gynlluniau sydd wedi eu datblygu'n dda i gyflawni'r rhan fwyaf o'r arbedion a ragwelir ar gyfer y dyfodol hyd at 2019/20.

Mae hyn yn welliant mawr ar safle'r llynedd, ac mae wedi gwneud HMIC yn llawer mwy hyderus o safle ariannol yr heddlu yn y tymor byr, canolig a hir.

# Atodiad A – Dyfarniadau HMIC

Y categorïau yw:

- rhagorol;
- da;
- angen gwelliant ; ac
- annigonol.

Gwneir dyfarniad o ran pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Wrth weithredu’r categorïau, mae HMIC yn ystyried:

bod effeithlonrwydd yr heddlu yn dda, neu'n rhagori ar y safon hon yn ddigonol i gael ei farnu i fod yn rhagorol;

mae effeithlonrwydd yr heddlu angen gwelliant am nad yw eto'n perfformio'n ar lefel dda, ac/neu mae yna rai gwendidau yn y sefydliad; neu

mae effeithlonrwydd yr heddlu yn annigonol oherwydd ei fod yn sylweddol is nag y gellid disgwyl yn rhesymol.

# Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7.

## Ffigwr 3

Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth busnes yn yr heddlu/cwnstabliaeth, 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.

Daw'r data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 3, ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 601 ac nid yw'n cynnwys gweithlu a ddyrannwyd dan gategori '62 arall' tra bod y data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 4 ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 502 ac mae'n cynnwys y categori hwn. Felly efallai na fydd cyfansymiau data yn cyd-fynd yn union.

## Ffigwr 4

Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr heddlu/cwnstabliaeth o gymharu â Chymru a Lloegr.Mae'r ffigurau yn nhabl 4 wedi eu talgrynnu i'r person cyfan agosaf, cyfatebol i amser llawn (FTE), ac felly gallai fod ychydig yn wahanol i'r union ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad.

Ar gyfer data ar 31 Mawrth 2010 a 31 Mawrth 2015 rydym wedi defnyddio data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref sy'n FTE 'gwir', tra ar gyfer y rhagolygon ar gyfer Mawrth 2018 yn rhagolygon seiliedig ar gyllideb ac felly'n debygol o ystyried cyfradd swyddi gwag yn ddibynnol ar strategaeth gynllunio heddlu/cwnstabliaeth. Mewn rhai achosion felly efallai na fydd cynnydd mewn swyddi a gyllidebwyd yn dangos bod yr heddlu/cwnstabliaeth wir yn cynllunio i gynyddu eu gweithlu wrth symud ymlaen. Mewn achosion eraill, efallai y bydd heddluoedd yn bwriadu lleihau eu gweithlu ond bod ganddynt gyfradd swyddi gwag uchel bresennol sy'n celu'r newid hwn.

Oherwydd y darlun cymhleth ac esblygol o gydweithrediad rhwng gweithluoedd heddluoedd cymdogol, nid yw pob newid yn ffigurau'r gweithlu yn real o ran y gweithlu sydd ar gael. Byddai cynnwys cynghreiriau strategol ac/neu unedau troseddau cyfundrefnol (ROCU) yn enghraifft o hynt newidiadau dros gyfnod o amser ar sgiw. Felly mae angen ystyried cynnydd neu leihad llym dros amser yn ofalus gan y gallant gynrychioli newidiadau cyfrifyddu yn ymwneud â sut mae staff wedi eu dyrannu i heddluoedd, nid newidiadau real yn lefelau staffio.

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr hinsawdd ariannol yn y dyfodol yn ansicr. Roedd sawl heddlu mewn sefyllfa ble nad oedd ganddynt gynlluniau wedi eu cadarnhau / cymeradwyo ar gyfer rhagolygon gweithlu.

Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a ddarperir yn aml yn amcangyfrifon heb eu cadarnhau a ddarperir i gynorthwyo HMIC yn y rhaglen archwilio, ac ni ddylid eu hystyried i fod yn gynllun cadarn ar gyfer y tirlun plismona yn y dyfodol. Mae’r sylwadau hyn yn berthnasol i ffigwr 3 a ffigwr 4.

## Ffigwr 5

Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, a newid a ragwelir mewn gwariant ar gyfer 2015/16 i 2019/20, yn erbyn llinell sylfaen GRE 2010 ar gyfer yr heddlu a Chymru a Lloegr

Mae ffigwr 5 yn dangos sut mae gwariant yr heddlu wedi newid yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant, o gymharu â'r cyfanswm newid mewn gwariant ar gyfer yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Ar gyfer 2015/16 ymlaen, cafwyd newid mewn methodoleg o gymharu â'r rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu. Nid yw'r gofyniad arbedion bellach yn wariant refeniw gros (GRE) chwyddedig llai gwariant ond yn hytrach swm yr arbedion arfaethedig a defnydd o gronfeydd wrth gefn i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn. Mae'r newid hwn wedi ei ddynodi gan linell doredig fertigol ar y siart. Mae'r siart yn dangos arbedion arfaethedig (yn cynnwys defnydd o gronfeydd i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn) mewn blynyddoedd i ddod, wedi ei gyfrifo yn defnyddio'r arbedion arfaethedig ar gyfer cyllidebau cyflog ac nad ydynt yn gyflog a ddarparwyd i HMIC ar adeg casglu'r data (Chwefror 2015). Mae rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw yn unig, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. Felly nid yw gofynion arbedion bychan o reidrwydd yn cyfateb i her arbedion bychan yn y dyfodol.

## Ffigwr 7

Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant refeniw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19

Yn ôl arolwg o gyfarwyddwyr ariannol a gwblhawyd gan y Comisiwn Archwilio[7], ystyrir yn gyffredinol bod tri i bump y cant o wariant refeniw net yn lefel ddoeth o gronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo ar gyfer dibenion cynllunio seiliedig ar risg.

Sylwer y cedwir pob categori o gronfeydd wrth gefn ar gyfer yr heddlu/cwnstabliaeth gan y PCC ar wahân i Ddinas Llundain a'r gwasanaeth heddlu Metropolitan, ble mae Corfforaeth Dinas Llundain a'r MOPAC yn cadw'r cronfeydd yn y drefn honno.

---

[7] *Striking a balance: Improving councils’ decision making on reserves,* Comisiwn Archwilio, Rhagfyr 2012. Ar gael o http://webarchive.nationalarchives.gov.uk